



PRIF WEITHREDWR

18/03/19

Mae Hijinx yn chwilio am Brif Weithredwr i ddilyn ymlaen o gyfnod daliadaeth Clare Williams, fu'n dal yr awenau tra bu'r cwmni yn mynd trwy gyfnod o dwf rhyfeddol gan ennill lluo o anrhydeddau a gwobrau, ac yn eu plith *The Stage International Theatre Award*, *Arts & Business Arts Award* a *The Welsh Charity of the Year for Outstanding Impact*.

Mae pencadlys Hijinx yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd ond mae'n gweithredu ar draws Cymru gyfan - gyda chanolfannau ym Mhrestatyn, Caerfyrddin, Aberystwyth a Chaerdydd. Mae Hijinx yn mynd i'r afael â'r broblem gymhleth o integreiddio pobl sydd ag anableddau dysgu i fod yn rhan o'r gweithle a'r gymdeithas. Mae'n gwneud hyn drwy ganfod a hyfforddi oedolion ifanc talentog sydd ag awtistiaeth ac anableddau dysgu i fod yn actorion proffesiynol.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus:

- ymrwymiad i fwrw ati gyda newid
- sgiliau mentergarwch a rheoli busnes
- sgiliau rhyngpersonol cryf
- ymrwymiad i les cymdeithasol
- craffter ariannol a llwyddiant wrth gynhyrchu incwm o weithgarwch masnachol heb wanhau'r genhadaeth graidd

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- rhywun sy'n mynnu safon ym mhob peth
- un sydd â meddylfryd strategol sy'n ddychmygus yn ogystal ag arloesol
- codwr proffil
- cyfathrebwr a rhwydweithiwr ardderchog
- llysgennad rhyngwladol dros Hijinx
- rheolwr medrus yn ei ymwneud/hymwneud â phobl sy'n meithrin gallu ac uchelgais yn nhîm Hijinx
- eiriolwr angerddol dros feithrin cynulleidfaoedd newydd
- rhywun sy'n barod i deithio'n helaeth ac i weithio oriau anghymdeithasol

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol. Mae ymrwymiad i ddysgu Cymraeg yn hanfodol. Gwybodaeth o ieithoedd Ewropeaidd eraill yn fanteisiol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd ar **23 Medi 2019**.

Cais trwy e-bost i gynnwys CV, llythyr eglurhaol (gan gynnwys cyflog disgwylidig) i Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr (trustees@hijinx.org.uk) erbyn **dydd Iau 18 Ebrill 5pm**

Hysbysir yr ymgeiswyr y mae eu henwau wedi eu cynnwys ar y rhestr fer trwy e-bost ar **ddydd Llun 29 Ebrill**. Ni fydd ymgeiswyr nad ydynt wedi'u hysbysu erbyn y dyddiad hwn yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. *Yn anffodus ni allwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.*

Cynhelir y cyfweiliadau ym Mae Caerdydd ar ddydd Llun 13 Mai.

Mae'r apwyntiad yn amodol ar eirda canolwyr a gwiriad DBS uwch.

PRIF WEITHREDWR HIJINX

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd	PRIF WEITHREDWR
Yn adrodd wrth	BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR
Yn gyfrifol am	UWCH DÎM RHEOLI a CHYFARWYDDWYR ACADEMIAU, THEATR, FFILM, SWYDDI A CHYFRANOGIAD

PRIF DDIBEN Y RÔL

- Bod yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol gyda phwyslais penodol ar reolaeth ariannol a phersonél, cynhyrchu incwm a phob rhwymedigaeth gyfreithiol a chytundebol y cwmni.
- Gweithio'n agos gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r pum Cyfarwyddwr er mwyn gweithredu gweledigaeth, cenhadaeth a phwrpas Hijinx.
- Rheoli a diwallu anghenion sefydliad sy'n tyfu'n gyflym a darparu profiadau eithriadol, o safon uchel i gyfranogwyr a chynulleidfaoedd.
- Arwain y sefydliad gyda phroffesiynoldeb a chyfathrebu a chyflwyno'n amserol i bleidiau mewnol ac allanol fel ei gilydd.
- Adrodd wrth y Cadeirydd bob wythnos a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ôl yr angen.
- Gwneud penderfyniadau ym mhob mater sy'n effeithio ar weithrediadau a pherfformiad yn unol â dymuniadau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Cynllun Busnes.
- Datblygu diwylliant o archwilio, rheoli ansawdd a chydymffurfiaeth a sicrhau bod pob agwedd o weithrediadau, polisiau a gweithdrefnau'r sefydliad yn cydymffurfio â rheoliadau. Adrodd yn brydlon wrth y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.
- Monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau.
- Meithrin cydberthnasau gweithio cryf gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, y Cyngor Prydeinig a Llywodraeth Cymru.
- Datblygu a meithrin tîm hapus a thalentog.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Arwain ar genhadaeth Hijinx er mwyn ei gwneud yn beth cyffredin gweld actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ar ein llwyfannau a'n sgriniau.
- Llunio cynllun strategol bob tair blynedd a'i adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.
- Sicrhau y cydymffurfir â gwerthoedd Hijinx.
- Rheoli llinell, monitro a chefnogi'r Uwch Dîm Rheoli (Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Datblygu Busnes) a'r pum Cyfarwyddwr Tŷ (Theatr, Ffilm, Cyfranogiad, Swyddi, Academi)
- Sicrhau bod y staff, cyfranogwyr a'r gweithwyr llawrydd a logir gan Hijinx yn cael eu trin yn deg.
- Sicrhau diogelwch ac iechyd a lles y staff, cyfranogwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd sy'n cael eu llogi gan Hijinx.
- Rheoli cyllidebau Hijinx a rhagfynegi a chynllunio ar gyfer twf.
- Adeiladu cronfeydd wrth gefn yn unol â'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn.
- Mynd ati'n weithredol i geisio partneriaid creadigol ac ariannu ynghyd â chydweithredwyr newydd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Sicrhau datblygu a monitro dangosyddion perfformiad allweddol. Cynnal rheolaethau clir ar berfformiad a chostau.
- Gyrru perfformiad a newid cadarnhaol ar draws y sefydliad.
- Sicrhau cynllunio cryf mewn perthynas ag olyniaeth a mentora'r holl staff.
- Sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus yn digwydd a'i fod yn cael ei gofnodi'n briodol.
- Sicrhau bod pawb yn cael eu hyfforddi'n gyson a'u datblygu i safon uchel.
- Darparu arweinyddiaeth sy'n cyflawni ei gofynion rheoleiddiol.

- Adnabod, rheoli a lliniaru risgiau yn rhagweithiol a sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael gwybod am bob achos o risg.
- Sicrhau bod y systemau a'r rheolaethau priodol yn gweithredu ar draws y sefydliad.
- Cyflawni swyddogaeth Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Paratoi'r Adroddiad Gweithredol ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.

TELERAU

Swydd barhaol amser llawn, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o chwe mis.

ORIAU

37.5 awr yr wythnos yn ystod oriau swyddfa arferol. Rhoddir amser o'r gwaith yn gyfnewid am ymrwymadau ychwanegol gyda'r nos a'r penwythnos. O ystyried lefel y penodiad, bydd angen oriau ychwanegol yn ôl disgrisiwn o dro i dro.

GWYLIAU

25 diwrnod + 8 diwrnod cyhoeddus statudol.

RHYBUDD

Chwe mis. Un mis yw'r cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf, i'r cyflogwr a'r cyflogai fel ei gilydd.

DIOGELU

Bydd y cynnig o waith cyflogedig yn amodol ar wiriad DBS Uwch.

YR HAWL I WEITHIO

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennaeth o'u hawl i fyw a gweithio yn y DU.

TYSTLYTHYRAU

Mae pob cynnig o waith cyflogedig yn amodol ar dderbyn tystlythyrau boddhaol.